

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Cei Newydd a gynhaliwyd yn Llyfrgell Cei Newydd,
nos Lun, 24 Chwefror 2020

PRESENNOL: Y Cynghorydd S Hartley (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies,
J Evans, G Hopley, P Hopley, D Potter a B Stones.

(7.00pm-7:55pm)

70 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr A Jones, M Rees a H Williams am na
allent ddod i'r cyfarfod.

71 **Datgan Buddiant Personol/Buddiant sy'n Rhagfarnu**

Y Cyng. J Davies – 76.05 Pwll Nofio Aberaeron – Buddiant Personol

72 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2020**

72.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2020 yn
gywir.

Materion yn codi

72.02/63.01/54.03/45.03/36.01/27.02/18.02/5.01/103.02/93.03/84.02/75.03/66.03/57
.03/48.03/39.06 Dywedodd y Clerc y byddai'r Cyng. Stones yn anfon rhestr o'r
meinciau yr oedd angen eu hatgyweirio ati, gan gynnwys y rhai ar Lôn Traethgwyn,
ar ôl tymor yr haf.

72.03/63.02/54.04/45.04/36.02/27.03/18.03/5.02/103.03/93.04/84.03
/75.04/66.04/57.05/48.05/43.01 Archwiliad o'r parc sgrialu. Nid oedd
y Cynghorwyr Potter a Williams wedi gallu gwneud y gwaith
atgyweirio perthnasol oherwydd tywydd drwg. Byddai'r Cyng. B
Stone yn holi beth fyddai cost yr arwyddion cŵn newydd.

72.04/63.03/54.07/49.03 Dywedodd y Cyng. Potter ei fod wedi gofyn am
ddyfynbrisiau gan nifer o gontractwyr. Fodd bynnag, nid oedd dim wedi dod i law.
Byddai'n gwneud cais ar Facebook i unrhyw gontractwyr gynnig eu
gwasanaethau.

73 **Adroddiad y Cynghorydd Sir**

73.01 Roedd swyddog o'r Adran Gynllunio wedi cytuno y gallai'r Cyngor osod
goleuadau ar y pier ar yr amod bod y tyllau gwreiddiol yn cael eu defnyddio. Gellid
cael cyflenwad trydan o'r Clwb Hwyllo. Gofynnid am brisiau ar gyfer y goleuadau
ynghyd â chost y gwaith atgyweirio ar y llifoleuadau.

73.02 Gofynnwyd i Gyngor y Dref gefnogi cais cynllunio ar gyfer estyniad i'r pier a
hefyd o bosib i dalu'r ffi am y cais cynllunio. Bydd y Cyngor yn ystyried rhagor o
wybodaeth ar y mater yn ei gyfarfod nesaf.

73.03 Cynhaliwyd sesiynau glanhau bod dydd Sul dros y mis diwethaf.

73.04 Gwahoddir tendrau i newid defnydd y gysgodfan ar y ffordd i lawr tuag at y
prif draeth.

73.05 Roedd grŵp Working 4 New Quay wedi prynu'r offer i gynnal gwaith
glanhau rheolaidd, ac roedd y Cyngor Sir wedi cytuno i gasglu unrhyw sbwriel.
Awgrymwyd y dylid rhoi sylw i Lôn Peilat yn y sesiwn lanhau nesaf.

- 74 **Cyllid**
Y balans agoriadol oedd £28,388.45 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).
- 74.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00 (Chwefror)
74.02 Ôl-daliad cyflog i'r Clerc £37.06 (Chwefror)
74.03 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Cynllun Talu Wrth Ennill £71.76) (Chwefror)
74.04 Swyddfa Archwilio Cymru (archwiliad) £247.75
- Y balans wrth gau oedd £27,766.88 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).
- Balans wrth gau cyfri Cyngor y Dref £27,088.32.
- Nodwyd yr adolygiad o Gyllideb mis Chwefror.
- 75 **Ceisiadau Cynllunio**
Cais A200072 a A200073 – Gwesty'r Penwig - Dim gwrthwynebiad.
- 76 **Gohebiaeth**
76.01 Sesiynau hyfforddi Un Llais Cymru - Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cymryd rhan mewn pum sesiwn a grybwyllwyd yn y rhaglen hyfforddi.
76.02 Cytunwyd ar y Gofrestr Risg fel y'i cyflwynwyd.
76.03 Penodi Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Cytunwyd i benodi Mr Ifor Evans yn Archwilydd Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru yn Archwilwyr Allanol.
76.04 Soniodd y Clerc am yr ymgynghoriad ar drefniadau archwilio Cyngorau Cymuned Cymru yn y dyfodol. Cytunwyd i nodi'r cynnwys.
76.05 Ystyriwyd y cais am gymorth ariannol oddi wrth Bwll Nofio Aberaeron. Cytunwyd i fodloni'r cais.
76.06 Gliniadur i'r Clerc - Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ymchwilio i brisiau gliniaduron newydd.
76.07 Maesypwll - Llythyr oddi wrth Grŵp Working for New Quay. Byddai e-bost arall yn cael ei anfon at yr Adran Ystadau ynghylch y brydles. Byddai'r Cyngor hefyd yn cysylltu ag Uwch Swyddogion sy'n gyfrifol am yr Adran.
- 77 **Unrhyw Fater Arall**
77.01 Yn absenoldeb y Cyng. M Rees, mynegodd y Cadeirydd bryder ynglŷn â symud y ddarpariaeth frys o Landysul i Gaerfyrddin. Dywedwyd mai'r rheswm dros hyn yw nad oes meddygon ar gael yn yr ardal dros nos.

77.02 Mynegwyd pryderon nad oedd sôn yn yr e-bost a gylchredwyd gan y Clerc yn ddiweddar am sesiynau galw i mewn yng Ngheredigion i drafod ailgylchu. Byddai e-bost yn cael ei anfon i holi ynghylch y mater.

78 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 30 Mawrth 2020

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Cei Newydd a gynhaliwyd yn Llyfrgell Cei Newydd,
nos Lun, 13 Ionawr 2020

PRESENNOL: Y Cynghorwyr S Hartley (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies,
J Evans, G Hopley, P Hopley, A Jones, D Potter, M Rees a H Williams.

(7.00pm-7:50pm)

61 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cyng. B Stones am na allai ddod i'r cyfarfod.

62 **Datgan Buddiant Personol/Buddiant sy'n Rhagfarnu**

Y Cyng. D Potter - Cais Cynllunio, A190977- Ar Lan y Môr, 12 Stryd y Cware

63 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019**

63.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd
2019 yn gywir.

**Materion yn
codi**

63.01/54.03/45.03/36.01/27.02/18.02/5.01/103.02/93.03/84.02/75.03/66.03/57.03/48
.03/39.06 Dywedodd y Clerc y byddai'r Cyng. Stones yn anfon rhestr o'r meinciau yr
oedd angen eu hatgyweirio at y Clerc, gan gynnwys y rhai ar Lôn Traethgwyn, ar ôl
tymor yr haf.

63.02/54.04/45.04/36.02/27.03/18.03/5.02/103.03/93.04/84.03/75.04

66.04/57.05/48.05/43.01 Archwiliad o'r parc sgrialu. Nid oedd y Cynghorwyr Potter a
Williams wedi gallu gwneud y gwaith atgyweirio perthnasol oherwydd tywydd drwg.
Yn ogystal â hynny, nid oedd gan y Cyng. Potter arwyddion ynglŷn â baw cŵn i'w
codi. Nodwyd y cafwyd problem fawr â chŵn yn baeddu o gwmpas y dref dros y
Nadolig.

63.03/54.07/49.03 Dywedodd y Cyng. Potter ei fod wedi gofyn am ddyfynbrisiau
oddi wrth nifer o gontractwyr. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt ddiddordeb yn y
gwaith atgyweirio am fod ganddynt gontractau mawr ar y gweill. Byddai'r Cyng.
Jones yn gofyn am ddyfynbrisiau oddi wrth y contractwyr yr oedd yn eu hadnabod.

63.04/59.01 Roedd y rheiliau wedi'u
hatgyweirio.

63.05 Diolchwyd i'r Cynghorwyr J Evans, D Potter a H Williams am godi'r
goeden Nadolig a'r goleuadau y tu allan i'r
llyfrgell.

64 **Adroddiad y Cynghorydd Sir**

64.01 Bwriadwyd cynnal cyfarfod â Jill o CADW a chyda Catrin Newbold o Gyngor
Sir Ceredigion ar yr 28^{ain} neu'r 29^{ain} o Ionawr i drafod yr estyniad i ben pellaf y pier,
(y dyddiad i'w gadarnhau).

64.02 Cafwyd cais hefyd yn y cyfarfod hwn i ddod â'r goleuadau yn ôl ar hyd y Pier,
a gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r ffordd ymlaen â'r mater hwn.

64.03 Gofynnid hefyd am ganiatâd i ailbeintio'r Pier.

64.04 Roedd Grŵp Working 4 New Quay wedi codi £1500 drwy werthu tocynnau
raffi. Dywedwyd hefyd y byddent yn rhoi £150.00 i'r ysgol leol. Os oeddent yn
cyfrannu'u helw, dywedodd Cyngor y Dref y byddai'n rhaid dweud wrthynt na fyddai

modd iddynt ofyn am gyfraniad ariannol tuag at y Soap Box Derby gan y dylent fod yn defnyddio'u harian nhw eu hunain. Byddai'r Cynghorydd Sir yn cyfleu'r neges hon i'r grŵp.

64.05 Mae Mr Adrian Lewis a'r Cyng. Potter wedi trwsio'r fainc gyferbyn â'r fferyllfa. Diolchwyd i Sheffield House am gyfrannu'r pren a'r sgriwiau ac i Mr Ken Jackson am gyfrannu'r plastig.

65 **Cyllid**

Balans agoriadol £29,362.88 (£678.56) (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 tuag at brosiect Dylan Thomas)

65.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £530.00 (Rhagfyr/Ionawr)

65.02 Ôl-daliad cyflog i'r Clerc £74.12 (Ionawr)

65.03 Cynllun Talu Wrth Ennill Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £143.52 (Rhagfyr/Ionawr)

65.04 Y Lleng Brydeinig £200.00

65.05 Y Wefan £76.79

Y balans wrth gau oedd £28,338.45 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).

Balans wrth gau cyfri Cyngor y Dref £27,659.89.

CYTUNWYD ar yr adolygiad o gyllideb misoedd Rhagfyr-Ionawr.

66 **Ceisiadau Cynllunio**

Cais A190977 - Ar Lan y Môr, 12 Stryd y Cware - Nodwyd y cais

67 **Gohebiaeth**

67.01 Ystyried praesept a chyllideb 2020/21 - ystyried y gyllideb a roddwyd gerbron yn ofalus ac, ar ôl ystyried yr adroddiad ynglŷn â'r praesept, CYTUNWYD na fyddai'r praesept yn cynyddu.

67.02 Nodwyd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

67.03 Nodwyd yr ymgynghoriad ar Strategaeth Economaidd newydd Ceredigion. Nodwyd hefyd bod sawl Aelod wedi cymryd rhan ynddo yn rhinwedd eu swyddi/rolau preifat.

67.04 Gohebiaeth – Ms Gina Walker - daeth ateb i law oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion ac aethpwyd i'r afael â'r materion a godwyd, gan nad oeddent yn faterion a oedd yn ymwneud â Chyngor y Dref.

68 **Unrhyw Fater Arall**

68.01 Byddai'r Cyng. Potter yn cysylltu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd ynglŷn â'r slyri sy'n gorlifo/sy'n cael ei arllwys o geuffosydd fferm leol.

68.02 Codwyd pryderon ynglŷn â'r system newydd sy'n golygu nad oes angen dangos copi o bolisi yswiriant wrth brynu angorfa. Nodwyd bod y Cyngor yn parhau i ofyn am gopi o bolisi yswiriant ond nid drwy'r Harbwrfeistr.

- 69 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**
Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 24 Chwefror 2020.

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Cei Newydd a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Cei Newydd, **nos Fawrth, 27 Tachwedd 2019**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr S Hartley (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies, J Evans, G Hopley, P Hopley, D Potter a H Williams.

(7.00pm-7:35pm)

52 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr M Rees a B Stones am na allent ddod i'r cyfarfod.

53 **Datgan Buddiant Personol/Buddiant sy'n Rhagfarnu**

Datganodd y Cyng. J Evans fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu dan 57.04 a 58.02.

54 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2019**

54.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2019 yn gywir.

Materion yn codi

54.02/45.02/43.02 Dywedodd y Clerc nad oedd wedi cael ateb oddi wrth y Cyng. A Jones i'w neges e-bost ynglŷn â'i bresenoldeb mewn cyfarfodydd. Byddai'r Cadeirydd yn rhoi tro amdano yn ei fusnes i drafod y ffordd ymlaen.

54.03/45.03/36.01/27.02/18.02/5.01/103.02/93.03/84.02/75.03/66.03/57.03/48.03/39.06 Dywedodd y Clerc y byddai'r Cyng. Stones yn anfon rhestr o'r meinciau yr oedd angen eu hatgyweirio ati, gan gynnwys y rhai ar Lôn Traethgwyn, ar ôl tymor yr haf.

54.04/45.04/36.02/27.03/18.03/5.02/103.03/93.04/84.03/75.04

66.04/57.05/48.05/43.01 Archwiliad o'r parc sgrialu. Dywedodd y Cyng. Williams ei fod wedi prynu'r capiau ar gyfer y parc. Bydd y Cyng. Potter yn cwrdd ag ef i'w trwsio.

54.05/45.07 Ni chynhaliwyd y cyfarfod oherwydd y tywydd drwg. Cynhelir y cyfarfod yn nawr y dydd Gwener hwnnw.

54.06/50.01 Byddai baneri newydd yn cael eu prynu.

54.07/49.03 Dywedodd y Cyng. Potter ei fod wedi gofyn am ddyfynbrisiau oddi wrth nifer o gontractwyr. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt ddiddordeb yn y gwaith atgyweirio am fod ganddynt gontractau mawr ar y gweill. Byddai'n rhoi neges ar Facebook i ofyn a fyddai gan unrhyw gontractwyr ddiddordeb yn y gwaith.

54.08 Cytunodd y Cyngor i dalu am y coed Nadolig ym Mharc Penwig ac yn y Llyfrgell.

54.09/50.02 Roedd y Cyng. Stones wedi atgyweirio bwrdd Dylan Thomas.

- 55 **Adroddiad y Cynghorydd Sir**
 55.01 Byddai cysgodfan newydd yn cael ei chodi gyferbyn â'r cyfleusterau cyhoeddus am fod lori wedi'i tharo.
 55.02 Byddai golau yn cael ei osod ychydig i fyny'r ffordd o'r fferyllfa.
 55.03 Bydd polion lamp newydd yn cael eu gosod o gwmpas Cei Newydd, gan gychwyn â'r rhai sydd wedi'u condemnio.
 55.04 Cyfarfod â Rhodri Llwyd, Gerwyn Jones a'r Cyng. Dafydd Edwards i drafod gwaelod y pier.
 55.05 Byddai ceisiadau am ganiatâd i ddefnyddio'r parc yn cael eu hanfon at Gyngor Sir Ceredigion. CYTUNWYD y byddai TC Electricity yn cael eu defnyddio ar gyfer y goeden.
 55.06 Cofnodwyd y tirlithriad ger gorsaf y bad achub a bu peiriannydd ar y safle i drafod y ffordd ymlaen.
- 56 **Cyllid**
 Y balans agoriadol oedd £24,544.16 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).
 56.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
 56.02 Ôl-daliad cyflog i'r Clerc £37.06 (Tachwedd)
 56.03 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Cynllun Talu Wrth Ennill £71.76) (Medi)
 56.04 Pwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd £15.00
 56.05 Coed Nadolig £150.00
- Y balans wrth gau oedd £24,005.34 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).
- + Praesept £5,357.54
- Balans wrth gau cyfrif Cyngor y Dref £29,362.88.
- Cytunwyd ar yr adolygiad o Gyllideb mis Tachwedd.
- 57 **Ceisiadau Cynllunio**
 57.01 A190688- Hungry Trout - Nodwyd
- 57.02 A190911 Rhan o Fferm Towyn - Fel y sylwadau a wnaed ynglŷn â'r cais blaenorol
- 57.03 A190864 Tafarn y Dolau - Nodwyd
- 57.04 A190923 Neuadd Goffa Cei Newydd - Nodwyd
- 58 **Gohebiaeth**
 58.01 Prydles y cerflun. Arwyddwyd y brydles.
- 58.02 Cais am gymorth ariannol oddi wrth y Lleng Brydeinig, Cei Newydd. Cytunwyd i roi £200.00.

59 **Unrhyw Fater Arall**

59.01 Rhaid oedd atgyweirio'r rheiliau ger tafarn y Llew Du.

59.02 Roedd yr holl bolion lamp wedi'u condemnio.

60 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod mis Rhagfyr nos Lun, 16 Rhagfyr 2019

Cynhelir cyfarfod mis Ionawr nos Lun, 13 Ionawr 2020 i drafod y praesept.

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Cei Newydd a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, nos
Lun, 28 Hydref 2019

PRESENNOL: y Cynghorydd S Hartley, (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies,
J Evans, G Hopley a P Hopley, Dan Potter, Brett Stones, M Rees

(7.00pm-8:15pm)

43 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cyng. H Williams am na allai ddod i'r cyfarfod.

44 **Datgan Buddiant Personol/Buddiant sy'n Rhagfarnu**

Dim.

45 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2019 Medi 2019**

45.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2019 yn gywir ar yr amod y nodir y cafodd adroddiad y Cynghorwyr Sir ei hepgor o'r cofnodion drwy gamgymeriad.

Materion yn codi

45.02/43.02 Dywedodd y Clerc nad oedd wedi cael ateb oddi wrth y Cyng. A Jones i'w neges e-bost ynglŷn â'i bresenoldeb mewn cyfarfodydd.

45.03/36.01/27.02/18.02/5.01/103.02/93.03/84.02/75.03/66.03/57.03/48.03/39.06
Dywedodd y Clerc y byddai'r Cyng. Stones yn anfon rhestr o'r meinciau yr oedd angen eu hatgyweirio ati, gan gynnwys y rhai ar Lôn Traethgwyn, ar ôl tymor yr haf.

45.04/36.02/27.03/18.03/5.02/103.03/93.04/84.03/75.04 66.04/57.05/48.05/43.01
Archwiliad o'r parc sgrialu - dywedodd y Cyng. Potter nad oedd wedi cwrdd â'r Cyng. Williams i fynd i'r afael â'r mân waith angenrheidiol.

45.05/36.03/27.04/18.04/.03/104.03 Nid oedd dim diweddariad ar gael ynglŷn â'r bibell a oedd wedi torri yn Heol yr Eglwys.

45.06/36.05/32.01 Nodwyd nad oedd y rheiliau yn Rhes Glanmor wedi'u hatgyweirio o hyd. Byddai'r Cynghorydd Sir a'r Clerc yn anfon e-bost arall i holi ynghylch hyn.

45.07 Nodwyd y pwyntiau canlynol ym Mhwyllgor Defnyddwyr Harbwr Cei Newydd:-
Parcio Cychod dros y Gaeaf

Mynegodd yr Aelodau bryderon unwaith eto nad oedd gan gychod hawl i barcio dros y gaeaf yn y Paragon, er nad oedd y maes parcio hwnnw fyth yn llawn. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod wedi trafod y mater â swyddogion. Fodd bynnag, nid oedd ateb pendant wedi dod i law eto. Byddai'n gofyn am ateb cyn y cyfarfod a byddai'n e-bostio'r ateb hwnnw at yr Aelodau.

Pier Penpolion

Atgyweiriwyd y canllaw. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn ddatrysiad tymor hir oherwydd cynllun y canllaw, a byddai angen ei atgyweirio unwaith eto'n fuan.

Cylch Achub Bywydau

Diolchwyd i'r Gwasanaeth Twristiaeth am y Cylch Achub Bywydau newydd.

Ceufadau

Wrth ymateb i ymholiad gan Gyngor Tref Cei Newydd, dywedodd Harbwrfeistr Ceredigion y byddai llythyr/cais yn cael ei anfon at ddefnyddwyr maes o law i ddyrannu'r rheseli. Byddai'r gronfa ddata yn ailddyrrannu'r llefydd ar gyfer ceufadau i ddefnyddwyr presennol, ac anogwyd y defnyddwyr hynny i ddychwelyd eu cais mor fuan â phosib am fod rhestr aros am lefydd. Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ynglŷn â pha mor gyflym yr oedd pobl yn symud drwy'r rhestr aros er mwyn gweld pa gynnydd sy'n cael ei wneud. Cytunwyd y byddai hon yn eitem sefydlog ar yr agenda.

Camerâu Cylch Cyfyng

Gofynnodd defnyddiwr am gamerâu yn yr harbwr i wneud y lle yn fwy diogel. Dywedwyd y byddai camera yn costio oddeutu £180. Awgrymwyd y gallai defnyddwyr yr harbwr drafod hyn a dod at ei gilydd i brynu'r camerâu hyn at eu defnydd nhw.

Angorfeydd

Mynegodd un Aelod bryder nad oedd yr Harbwrfeistr na'r Cyngor 'chwaith yn gofyn am gopi o yswiriant defnyddwyr cychod cyn dyroddi angorfa. Dywedodd y Cadeirydd fod llofnodi datganiad bellach yn ddigon, ac mai hwn oedd polisi'r Cyngor hefyd. Gwrthwynebai'r Aelodau hyn a dywedwyd y dylai'r Cyngor ddychwelyd i'r protocol blaenorol a chadw cronfa ddata.

Cwch nad yw'n addas i'r môr

Mynegodd un defnyddiwr bryder ynglŷn â'r difrod a wnaed i'w gwch gan y cwch nesaf ato nad oedd yn addas i'r môr. Dywedodd yr Harbwrfeistr iddo sôn wrth y perchennog na ddylai'r cwch ddychwelyd i'w angorfa. Dywedwyd hefyd bod pob digwyddiad wedi'i gofnodi yng nghofnodlyfr yr harbwr.

Polisi Rheoli Diogelwch

Gofynnwyd am ddiweddariad ynglŷn â'r Polisi Rheoli Diogelwch ar gyfer yr harbyrau. Dywedodd Harbwrfeistr Ceredigion fod y polisi'n cael ei adolygu bob blwyddyn a'i ddiweddarau ar wefan y Cyngor. Dywedodd un defnyddiwr nad oedd y polisi wedi'i ddiweddarau ar y wefan. Dywedodd Harbwrfeistr Ceredigion y byddai'n cysylltu â'r swyddog perthnasol er mwyn diweddarau'r wefan.

Mynediad i ben pellaf y Pier

Cyflwynodd Winston a Jonathan Evans gynllun i'r defnyddwyr a fyddai'n gweld estyniad yn cael ei ychwanegu at ben pellaf y pier er mwyn i bobl allu mynd at eu cychod pan fo lefel y dŵr yn isel. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad. Petai cyllid grant ar gael i wneud y gwaith, nodwyd mai un o'r amodau oedd y byddai'r Cyngor Sir yn mabwysiadu'r estyniad. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn rhagweld y byddai'r Cyngor yn gwrthwynebu hyn gan y byddai o fydd i'r economi leol. Dywedodd y Cyng. Hartley y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal â chwmni adeiladu Afan ddydd lau i drafod y cynlluniau. Byddai'r llithrfa arfaethedig yno i'w defnyddio gan gychod teithwyr a badau achub fel ei gilydd.

Glanhau'r Harbwr

Soniodd yr Harbwrfeistr fod sgip i fod i gyrraedd maes o law i helpu â'r gwaith glanhau. Byddai sgip arall yn cyrraedd cyn y Pasg.

Arwyddion

Gofynnwyd am arwydd newydd i rybuddio pobl ynglŷn â chreigiau sy'n syrthio a'r llanw rhwng Cei Newydd a Thraeth Gwyn. Byddai'r Cynghorydd Sir yn cysylltu â'r Gwasanaeth Twristiaeth i ofyn am yr arwydd. Byddai angen cael arwydd newydd bob blwyddyn o ganlyniad i erydiad tir.

Cyfleusterau Cyhoeddus - Y Llithrfa Dywod

Dywedwyd bod safon y gwaith glanhau yn y cyfleusterau cyhoeddus yn wael, yn enwedig o gofio bod angen iddynt fod yn lân er mwyn i'r traeth ennill ei Fanner Las. Penderfynwyd gadael neges i'r glanhawr am fod arolygwr y Cyngor o'r farn fod y gwaith glanhau yn ddigonol. Cytunodd yr Aelodau hefyd y byddai Cyngor y Dref yn gofyn i'r cyfleusterau cyhoeddus gael eu glanhau'n drwyadl cyn eu cau a'u hailagor.

Cychod Tendio sydd wedi'u Gadael

Os oedd unrhyw gychod tendio wedi'u gadael, dywedwyd y dylid ffonio'r Gwasanaethau Technegol er mwyn i'r Harbwrfeistr ddelio â nhw.

Paentio'r Pier - Nododd y Cyng. Potter y byddai'n cwrdd â swyddogion i drafod rhagor ar y mater hwn ar y 12fed o Dachwedd.

45.08/41.03 Cytunwyd y byddai'r Cyng. Potter a'r Clerc yn ysgrifennu at Awdurdod Canolbarth a Gorllewin Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd o symud y cyd-ymatebwr i Gei Newydd yn hytrach nag i Aberaeron.

46 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd y rhan fwyaf o'r materion wedi'u gwyntyllu. Fodd bynnag, yn sgil digwyddiad diweddar yng Nghei Newydd, pan gymerodd yr ambiwlans dros 20 munud i gyrraedd claf, anogodd bawb i fynd ar gwrs i ddysgu sut i ddefnyddio diffibriliwr.

47 Cyllid

Y balans agoriadol oedd £25,372.98 (£678.56) (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).

47.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00

47.02 Ôl-daliad cyflog i'r Clerc £37.06 (Hydref)

47.03 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Cynllun Talu Wrth Ennill £71.76) (Hydref)

47.04 Pwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd
£15.00

47.05 Y Lleng Brydeinig £25.00

47.06 Paul Hughes £415.00

Y balans wrth gau oedd £24,544.16 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).

Balans wrth gau cyfri Cyngor y Dref £23,865.60.

CYTUNWYD i gymeradwyo'r gyllideb fel y'i cyflwynwyd.

47.06 Cyfrifon 2018/19 - Dywedodd y Clerc fod y cyfrifon wedi'u dychwelyd ac y gwnaethpwyd mân sylwadau. Anfonwyd y sylwadau hyn at yr Aelodau.

48 Ceisiadau Cynllunio

48.01 A190745 - 12 Stryd Francis - NODWYD

48.02 A190736 – Bronant, 3 Stryd y Dŵr - NODWYD

48.03 A190805 Ystâd Cwm Ifor, Cei Newydd - NODWYD

49 **Gohebiaeth**

49.01 Prydles – Cerflun – Cytunwyd i lofnodi'r brydles yn y cyfarfod nesaf.

49.02 Maesypwll - soniodd y Clerc ei bod yn dal i aros am y cytundeb oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion am fod yn rhaid diwygio'r cynllun i roi cyfrif am brynu'r ffordd.

49.03 Praesept 2020/21- Cytunwyd y byddai'r praesept yn cael ei drafod ar 13 Ionawr 2020. Sgwâr Ucheldir

50 **Unrhyw Fater Arall**

50.01 Byddai baneri Cymru newydd yn cael eu prynu.

50.02 Gofynnid hefyd am dri dyfynbris i atgyweirio bwrdd Dylan Thomas.

50.03 Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith nad oedd 3 golau yn gweithio ym mhen gwaelod Cei Newydd. Roedd un wedi'i ddifrodi gan gerbyd, chwythodd un i ffwrdd ac roedd pen y golau arall wedi mynd.

50.04 Roedd trefniadau ar droed i gael coed Nadolig.

50.05 Llongyfarchwyd Pwyllgor y Neuadd ar sicrhau £223,000 o gyllid y Loteri.

50.06 Nodwyd bod angen paentio sied gwylwyr y glannau cyn cael ffenestri newydd yno.

51 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 26 Tachwedd 2019

Cynhelir cyfarfod mis Rhagfyr nos Lun, 16 Rhagfyr 2019

Cynhelir cyfarfod mis Ionawr nos Lun, 13 Ionawr 2020 i drafod y praesept.

Cofnodion **Cyfarfod** Cyngor Tref Cei Newydd a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, nos
Lun, 30 Medi 2019

PRESENNOL: Y Cyng. S Hartley, (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies, J Evans,
Dan Potter, Brett Stones, M Rees a Huw Williams

(7.00pm-8:15pm)

34 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr G Hopley a P Hopley am na allent ddod i'r cyfarfod.

Nid oedd y Cyng. A Jones wedi ymddiheuro. Mynegodd yr Aelodau bryderon ynglŷn â nifer y cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt yn ddiweddar. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu e-bost ato i'w holi beth oedd y sefyllfa.

35 **Datgan Buddiant Personol/Buddiant sy'n Rhagfarnu**

Dim.

36 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2019**

36.01 Cadarnhawyd bod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2019 yn gywir.

Materion yn codi

36.01/27.02/18.02/5.01/103.02/93.03/84.02/75.03/66.03/57.03/48.03/39.06

Dywedodd y Clerc y byddai'r Cyng. Stones yn anfon rhestr o'r meinciau yr oedd angen eu hatgyweirio at y Clerc, gan gynnwys y rhai ar Lôn Traethgwyn, ar ôl tymor yr haf.

36.02/27.03/18.03/5.02/103.03/93.04/84.03/75.04 66.04/57.05/48.05/43.01

Archwiliad o'r parc sgrialu - roedd y gof wedi cadarnhau nad oedd wedi'i gofrestru â Chyngor Sir Ceredigion. Fodd bynnag, nododd y Clerc nad oedd hyn yn peri anhawster gan mai Cyngor y Dref oedd yn gyfrifol am y parc sgrialu. Serch hyn, cytunwyd y byddai'r Cynghorwyr Potter a Williams yn cwrdd i fynd i'r afael â'r mân faterion a godwyd yn yr adroddiad ac nad oedd angen gof ar hyn o bryd.

36.03/27.04/18.04/.03/104.03 Dim diweddariad ynglŷn â'r bibell a oedd wedi'i thorri yn Heol yr Eglwys. Fodd bynnag, gwyddai'r Aelodau fod ymdrechion yn parhau i ymchwilio i'r mater ac yr anfonwyd drôn i archwilio'r geuffos.

36.04/27.08/24.05 Nid oedd dim ymateb wedi dod i law.

36.05/32.01 Nodwyd nad oedd y rheiliau yn Rhos Glanmor wedi'u hatgyweirio o hyd. Byddai'r Cynghorydd Sir a'r Clerc yn anfon e-bost arall i holi ynglŷn â'r mater.

36.06/32.02 Aethpwyd i'r afael â hyn.

37 **Adroddiad y Cynghorydd Sir**

38 **Cyllid**

Y balans agoriadol oedd £21,284.93 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).

39.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00

39.02 Ôl-daliad cyflog i'r Clerc £37.06 (Medi)
39.03 CYLLID A THOLLAU EI MAWRHYDI (CYNLLUN TALU WRTH ENNILL £71.76) (Medi)
39.04 Pwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd
£15.00
39.05 Npower £528.68
39.06 Gatiâu'r parc sgrialu – Ioan Jones £208.00
39.07 G Jones – torri cloddiau £144.00
+ Praesept £5,357.55
Y balans wrth gau oedd £25,372.98 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).

Balans wrth gau cyfri Cyngor y Dref £24,694.42.

Ystyriwyd yr adolygiad o gyllideb mis Medi.

39 **Ceisiadau Cynllunio**

40.01 A190439 Hen Fanc y National Westminster - NODWYD

40.02 A190673 – 1 Cwrt Dolffin, Cei Newydd - NODWYD

40.03 A190652 Tafarn y Dolau, Cei Newydd - NODWYD

40.04 A190686 Bwyty'r Hungry Trout - NODWYD

40.05 A190695 Quay Fresh a Frozen Food Ltd - NODWYD

40 **Gohebiaeth**

40.01 Prydles – Cerflun – Cytunodd yr Aelodau i ddrafftio'r brydles fel y'i cyflwynwyd.

40.02 Cytunwyd i fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol diwygiedig.

40.03 Nodwyd bod y cynllun Ail-lenwi Poteli Dŵr yn llwyddiant ac ychwanegwyd bod 9 o fusnesau wedi dod yn rhan o'r cynllun.

40.04 Ystyriwyd y posibilrwydd o fabwysiadu Cynllun Ceisiadau Cymorth Ariannol er mwyn ystyried ceisiadau unwaith y flwyddyn. Cytunodd yr Aelodau i barhau i ystyried ceisiadau wrth iddynt ddod i law.

40.05 Nodwyd dyddiadau sesiynau hyfforddi Un Llais Cymru. Fodd bynnag, roedd y Cyngorwyr Hartley a Stones yn awyddus i fynd ar gwrs sgiliau cadeirio.

40.06 Nodwyd y llythyr oddi wrth Gomisiynydd yr Heddlu.

41 **Unrhyw Fater Arall**

41.01 Nodwyd bod yr estyll tywydd yn rhydd ac y dylai'r Cyngor Sir roi sylw iddynt ar frys.

41.02 Roedd llythyr wedi'i anfon at y Cadeirydd ynghylch symud y Llyfrgell i'r Neuadd Goffa am fod angen sylw brys ar adeilad y Llyfrgell. Cytunwyd i gefnogi hyn.

41.03 Gofynnodd yr Aelodau a fyddai gan Orsaf yr Ambiwllans safle yng Ngheï Newydd, megis yn swyddfeydd Gwylwyr y Glannau. Byddai e-bost i'r perwyl hwn yn cael ei anfon at y gwasanaeth.

41.04 Daeth cwyn i law ynghylch safon y gwaith glanhau yn y cyfleusterau cyhoeddus ar y llithrfa dywod.

41.05 Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbwr ar 17 Hydref. Gofynnodd yr Aelodau am gael cynnwys dwy eitem ar agenda'r Pwyllgor hwnnw:-

- Petai ffordd symlach o ddyrannu'r rheseli ceufadau, yn hytrach na'u dyrannu bob penwythnos Gŵyl y Banc a chael pobl yn ciwio amdanynt am 3 y bore, a fyddai modd storio rhagor o geufadau?
- Cefnogwyd y bwriad i ailbeintio'r pier cyn cyflwyno cais cynllunio i CADW.

42 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Hydref 2019.

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Cei Newydd a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, nos Lun, 24 Mehefin 2019

PRESENNOL: Y Cyng. S Stones, (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies, J Evans, G Hopley, P Hopley a H Williams
(7.00pm-8:10pm)

Gweithdrefn

Am fod y Cadeirydd yn absennol, cadeiriodd Is-gadeirydd y Cyngor, y Cyng. B Stones, y cyfarfod.

16 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr S Hartley a D Potter am na allent ddod i'r cyfarfod.

17 Datgan Buddiant Personol/Buddiant sy'n Rhagfarnu

Cofnod 21 - Y Cynghorwyr G Hopley a P Hopley.

18 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2019

18.01 Cadarnhawyd bod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2019 yn gywir.

Materion yn codi

18.02/5.01/103.02/93.03/84.02/75.03/66.03/57.03/48.03/39.06 Byddai'r Cyng. Stones yn anfon rhestr o'r meinciau y mae angen eu hatgyweirio at y Clerc, gan gynnwys y rhai ar Lôn Traethgwyn.

18.03/5.02/103.03/93.04/84.03/75.04 66.04/57.05/48.05/43.01 Archwiliad o'r parc sgrialu - gofynnid i'r Cyng. Potter atgoffa D Price unwaith eto ynglŷn â'r angen i ddarparu dyfynbris am y gwaith y mae angen ei wneud ar y parc.

18.04/104.03 Dim diweddariad ynghylch y bibell a oedd wedi torri yn Heol yr Eglwys. Cytunwyd bod angen mynd i'r afael â hyn ar fyrder oherwydd yr effaith ar Draeth y Dolau.

18.05.04/106.02 Cais A190126 - Newid defnydd o Ganolfan Groeso i siop goffi a chacennau â llefydd i eistedd y tu mewn a thu allan i'r adeilad - dywedwyd nad oedd y cais wedi'i gymeradwyo hyd yma.

19 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Yn absenoldeb y Cadeirydd, darllenodd y Clerc e-bost oddi wrth y Cynghorydd Sir:

19.01 Diolch i bawb a fu'n rhan o'r ymdrech i gael cerflun i Gei Newydd.

19.02 Cyfarfod â Chynghorwyr Sir er mwyn sicrhau bod digon o lefydd parcio ar gael uwchben Gorsaf y Bad Achub fel y gall peirianwyr ddod i weithio yn yr orsaf.

19.03 Yr angen i gael prisiau ar gyfer y tarmac ger tafarn y Llew Du.

19.04 Yr angen i chwynnu yn y parc sgrialu.

19.05 Yr angen am gymorth i baentio man gwyllo gwylwyr y glannau. Mae gan y Cyngor y paent.

19.06 Bydd yr ysgubwr yn glanhau'r dref ac i lawr tuag at gaffi'r traeth.

O ran Cofnod 19.03, cytunwyd mai'r Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am y lôn, fel y cadarnhawyd yn yr ohebiaeth. Bydd e-bost yn cael ei anfon at y swyddog a fydd yn datgan mai'r Cyngor Sir fydd yn gyfrifol am unrhyw anafiadau i'r cyhoedd o ganlyniad i'r lôn anwastad. Nid oedd gan Gyngor y Dref gyllid i gynorthwyo â gwelliannau'r Cyngor. Roedd hyn hefyd yn wir am y 'Rhiw Ddiddiwedd' y bu'r Cyngor Sir yn gwneud gwaith atgyweirio arni'n ddiweddar.

20 **Cyllid**

Y balans agoriadol oedd £24,999.49 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).

20.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00

20.02 Ôl-daliad cyflog i'r Clerc £37.06 (Mai) £37.06

20.03 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Cynllun Talu Wrth Ennill £71.76)

20.04 Pwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd
£15.00

20.05 Yr Amgueddfa £900.00

20.06 Costau'r Maer (y Cyng. J Evans) £200.00

20.07 Trydan (Llyfrgell) £416.65 (talwyd eisoes oherwydd y terfyn amser)

20.08 Ysgol Cei Newydd £100.00

Y balans wrth gau oedd £22,994.02 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).

Balans wrth gau cyfri Cyngor y Dref £22,315.46.

Cytunwyd ar yr Adolygiad o Gyllideb mis Mehefin.

21 **Ceisiadau Cynllunio**

A180411 Codi 4 annedd a gwaith cysylltiol, Ffordd Newydd, Cei Newydd - NODWYD

22 **Gohebiaeth**

22.01 Nodwyd yr Adolygiad o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion.

22.02 Nodwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig.

22.03 Roedd e-bost wedi dod i law oddi wrth Gyfeillion yr Ysgol a ofynnai am rodd ariannol tuag at eu prosiect i hyrwyddo'r ysgol. Cytunwyd i roi £100.00.

24 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 29, 2019.

Cofnodion **Cyfarfod**
Cyffredinol Blynyddol Cyngor
Tref Cei Newydd a gynhaliwyd
yn y Neuadd Goffa, **nos Lun, 20**
Mai 2019

PRESENNOL: Y Cynghorydd J
Evans (Cadeirydd), y
Cynghorwyr S Hartley, D Potter,
M Rees, B Stones a H Williams

(7.00pm-7.40pm)

- 1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr J
Davies, G Hopley, P Hopley ac
A Jones am na allent ddod i'r
cyfarfod.
- 2 **Datgan Buddiant**
Personol/Buddiant sy'n
Rhagfarnu
Cofnod 10.01 - y Cynghorwyr S
Hartley a B Stones
- 3 **Cadeirydd y Cyngor ar gyfer**
blwyddyn nesaf y Cyngor,
2019-20
PENDERFYNWYD ethol y
Cyng. Stephen Hartley yn
Gadeirydd y Cyngor ar gyfer
2019-20. Arwyddodd y
Cadeirydd a oedd newydd ei
ethol, y Cyng. Arwel Davies, y
Datganiad Derbyn Swydd.
- 4 **Is-gadeirydd y Cyngor ar**
gyfer blwyddyn nesaf y
Cyngor, 2019-20
PENDERFYNWYD ethol y
Cyng. Brett Stones yn Is-
gadeirydd y Cyngor ar gyfer
2019-20.

**Cofnodion y cyfarfod a
gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2019**

5.01 Cadarnhawyd bod
Cofnodion y cyfarfod a
gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2019 yn
gywir.

Materion yn codi

5.01/103.02/93.03/84.02/75.03/6
6.03/57.03/48.03/39.06 Byddai'r
Cyng. Stones yn anfon rhestr o'r
meinciau y mae angen eu
hatgyweirio at y Clerc, gan
gynnwys y rhai ar Lôn
Traethgwyn.

5.02/103.03/93.04/84.03/75.04
66.04/57.05/48.05/43.01
Archwiliad o'r parc sgrialu -
Gofynnid i'r Cyng. Potter atgoffa
D Price unwaith eto ynglŷn â'r
angen i roi dyfynbris am y
gwaith y mae angen ei wneud ar
y parc. Byddai'r Cyng. Potter
hefyd yn trafod y gwaith hyn â
rhywun sy'n defnyddio'r parc.
Dywedwyd y bydd yr archwiliad
nesaf yn digwydd ym mis
Mehefin.

5.03/104.03 Dim diweddariad
ynghylch y bibell a oedd wedi'i
thorri yn Heol yr Eglwys.
Cytunwyd bod angen mynd i'r
afael â hyn ar fyrder oherwydd
yr effaith ar Draeth y Dolau.
Roedd yr arwyddion sy'n
rhybuddio'r cyhoedd ynghylch
dŵr llygredig wedi'u dwyn, felly
roedd Cyngor Sir Ceredigion yn
trefnu bod arwyddion newydd yn
cael eu codi.

5.04/106.02 Cais A190126 -
Newid defnydd o Ganolfan

Groeso i siop goffi a chacennau â llefydd i eistedd y tu mewn i'r adeilad a thu allan - dywedwyd nad oedd y cais wedi'i gymeradwyo hyd yma.

5.04/104.01 Roedd y gwaith ar yr estyniad i'r pier wedi gorffen am y tro oherwydd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal arolwg o'r mwydod ar y pier.

6 Adroddiad y Cynghorydd Sir
6.01 – Dywedwyd y byddai'r Prif Weinidog yn dadorchuddio'r cerflun ar y 10fed o Fehefin 2019

6.02 Bu'r Soap Box Derby yn llwyddiant ysgubol. Fodd bynnag, nid oedd llawer o fusnesau wedi cefnogi'r digwyddiad.

7 **Cyllid**
Y balans agoriadol oedd £21,030.76 (neilltuwyd £779.36 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas)
7.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
7.02 Ôl-daliad cyflog i'r Clerc £37.06 (Ebrill) £37.06
7.03 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Cynllun Talu Wrth Ennill £71.76)
7.04 Pwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd £15.00
7.05 Cyfraniad Blynyddol tuag at Neuadd Goffa Cei Newydd £1000.00
7.06 Padiâu i'r diffibriliwr £100.80
7.07

(Cytunwyd y byddai'r Cyng. J Evans yn arwyddo'r siec ar gyfer y neuadd a'r siec i dalu am badiâu'r diffibriliwr a'r offer codi

am nad oedd 3 o'r llofnodwyr yn bresennol yn y cyfarfod)

+Praesept £5357.55

Y balans wrth gau oedd £24,999.49 (neilltuwyd £678.56 ar gyfer y diffibriliwr a £500.00 ar gyfer prosiect Dylan Thomas).

Balans wrth gau cyfri Cyngor y Dref £24,099.33.

Adolygiad o Gyllideb mis Mai

7.07 Cyfrifon 2018/19 - Cytunwyd i dderbyn y cyfrifon fel y'u cyflwynwyd.

Nodwyd nad oedd y siec ar gyfer Eisteddfod 2020 wedi'i hysgrifennu yn y cyfarfod diwethaf, felly fe'i cyflwynid unwaith eto i'w thalu. Fodd bynnag, o ddarllen cofnodion y cyfarfod blaenorol, gwelir bod y swm wedi'i ddiwynnu.

7.06 Cytunwyd i gymeradwyo cyfrifon 2018/19.

8

Ceisiadau Cynllunio

Dim

9

Penderfyniadau Cynllunio

Dim.

10

Gohebiaeth

10.01 Llythyr – Masnach yng Ngheredigion – cytunwyd nad oedd hyn yn broblem yng Nghei Newydd.

10.02 Cynllun Datblygu Lleol Newydd, 2018-2033 - Cytunwyd y byddai'r Aelodau yn ystyried y cynnwys ac yn anfon eu sylwadau at y Clerc.

10.03 Panel Annibynnol ar

Gydnabyddiaeth Ariannol
Cymru: Adroddiad Blynyddol
2019 hyd 2020 - Ystyriwyd
argymhellion Panel Annibynnol
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Cymru dyddiedig mis Chwefror
2019 a **PHENDERFYNWYD**
mabwysiadu'r Cynllun canlynol
ar gyfer 2019-20: *Y Lwfansau
sydd wedi'u cynnwys yn y
Cynllun*

Penderfyniad 40 – Taliad tuag at
gostau a threuliau

Penderfyniad 43 – Costau
teithio

Penderfyniad 46 – Lwfans
costau gofal

*Lwfansau
nad ydynt wedi'u cynnwys yn y
Cynllun*

Penderfyniad 42 – Taliad
cyfrifoldebau penodedig

Penderfyniad 44 – Taliad costau
cynhaliaeth

Penderfyniad 45 – Lwfans colled
ariannol

Penderfyniad

47 – Taliad i'r Pennaeth Dinesig

Penderfyniad

48 – Taliad i'r Dirprwy Bennaeth
Dinesig

12

Trefniadau'r cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar
Fehfin 24 2019.